**CABINET**
**17 GORFFENNAF 2018**

Cofnodion cyfarfod Cabinet Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Clwyd, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ddydd Mawrth, 17 Gorffennaf 2018.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Aaron Shotton (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Chris Bithell, Derek Butler, Christine Jones, Billy Mullin, Ian Roberts a Carolyn Thomas.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Rheolwyr Cyllid, Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd, Rheolwr Cludiant a Logisteg, Rheolwr Meysydd Parcio a Gorfodi, Swyddog Datblygu Polisi – Cydraddoldeb, Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a'r Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Democrataidd.

**YMDDIHEURIADAU:**
Dim.

**AELODAU ERAILL WRTH LAW:**
Y Cynghorwyr: Dave Healey, Gladys Healey a Patrick Heesom.

**205. DATGAN CYSYLLTIADAU**

Datganodd y Cynghorwyr Jones, Mullin, Thomas a Shotton gysylltiad personol ag eitem 14 ar y rhaglen – Canlyniad yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Gludiant Cyhoeddus ac Anghysonderau o ran Cludiant i'r Ysgol.

**206. COFNODION**

Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2018 wedi eu dosbarthu gyda'r agenda. Yn amodol ar ddileu'r geiriau 'ac ariannu hynny' o gofnod 189, Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol – Adolygu'r Polisi, a chywiro gwall teipio yng nghofnod 193, cymeradwywyd y cofnodion fel rhai cywir.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

**207. IAN BANCROFT**

Aeth y Prif Weithredwr yn gyntaf wrth dalu teyrnged i Ian Bancroft am ei waith gyda'r Cyngor, a'r nifer o gynlluniau llwyddiannus a gyflawnwyd o dan ei arweinyddiaeth. Roedd y rheiny'n cynnwys diogelu llyfrgelloedd a gwasanaethau hamdden pan grëwyd sefydliad cydfuddiannol cyntaf y staff, ac adnewyddu Theatr Clwyd. Soniodd am y cysylltiadau cryf â swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, lle byddai Ian yn mynd i fod yn Brif Weithredwr, ac am ddatblygu'r cysylltiadau hynny ymhellach. Rhoddodd ddiolch i Ian am ei holl waith gyda Chyngor Sir y Fflint, a dymunodd yn dda iddo yn ei swydd newydd.

Talodd holl aelodau'r Cabinet eu teyrngedau eu hunain i Ian, gan grybwyll ei agwedd gadarnhaol, ei ddylanwad tawel, ei sgiliau cyd-drafod, a'r gallu unigryw oedd ganddo i ddod â grwpiau o bobl ynghyd. Diolchodd Ian Bancroft i bawb am eu geiriau caredig, a dywedodd fod hynny'n adlewyrchiad o'r arweinyddiaeth gref yn Sir y Fflint. Edrychai ymlaen at weithio gyda Sir y Fflint er budd holl drigolion gogledd ddwyrain Cymru.

## 208. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016/18 AR Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL AC ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2017/18 AR YR IAITH GYMRAEG

Cyflwynodd y Cynghorydd Mullin Adroddiad Blynyddol 2016/18 ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Adroddiad Monitro Blynyddol 2017/18 ar yr Iaith Gymraeg, a oedd yn rhoi braslun o'r cynnydd a wnaethpwyd wrth gydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg, ac yn nodi meysydd ar gyfer gwella.

Rhannodd y Prif Weithredwr yr wybodaeth ddiweddaraf ar lafar yn sgil sylwadau a wnaethpwyd yng nghyfarfod diweddaraf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ynglŷn â hybu dwyieithrwydd a diogelu pobl ifanc.

Rhoddodd y Swyddog Datblygu Polisi – Cydraddoldeb fanylion ynglŷn â'r meysydd oedd eto i'w cyflawni, ac roedd manylion llawn am y rheiny yn yr adroddiad.

Cefnogodd y Cynghorydd Bithell y 'cam nesaf' o ran cyfathrebu'n gyson â'r gweithlu ynglŷn â chydymffurfiaeth â'r drefn a hyrwyddo Safonau'r Gymraeg.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Cabinet yn ffyddiog y gwnaethpwyd cynnydd ar hyd y flwyddyn o ran cyflawni'r dyletswyddau statudol;

(b) Nodi'r meysydd ar gyfer gwella, a derbyn adroddiad ganol y flwyddyn ynglŷn â'r cynnydd bryd hynny;

(c) Rhoi cymeradwyaeth i gyhoeddi'r adroddiadau ar wefan y Cyngor; a

(d) Chynnwys yr Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar yr Iaith Gymraeg ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

## 209. YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AM REOLI'R DDEDDFWRIAETH DDIGARTREFEDD O FEWN DEDDF TAI (CYMRU) 2014

Cyflwynodd y Cynghorydd Attridge yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Reoli'r Ddeddfwriaeth Ddigartrefedd o fewn Deddf Tai (Cymru) 2014, gan sôn sut oedd y Cyngor wedi bodloni gofynion y ddeddfwriaeth ddigartrefedd newydd, ynghyd â rhai o'r heriau i'r Cyngor oedd ar y gorwel.

Yn yr adroddiad roedd manylion am nifer y ceisiadau brysbennu ar gyfer cwsmeriaid yn gofyn am gymorth gyda thai, oedd wedi cynyddu 3.9% yn 2017/18 o gymharu â'r llynedd.

Darparwyd manylion llawn ynglŷn â digartrefedd, cefnogi pobl, datblygu Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol, y gofrestr tai cymdeithasol, y sector rhentu preifat, llety dros dro, pobl yn cysgu ar y stryd, aelwydydd sengl, pobl ddiamddiffyn ac anghenion cymhleth, atal pobl rhag cysgu ar y stryd, a chynyddu nifer y cartrefi sydd ar gael yn y sector rhentu preifat.

O ran cefnogi pobl, dywedodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) bod y Cyngor wedi ariannu'r cynllun hwnnw â Grant Rhaglen Cefnogi Pobl, a phe byddai unrhyw newid o ran y cyllid hwnnw, gan gynnwys ei leihau neu'i ddileu, byddai'n creu gwasgfa ar gyllideb y Cyngor. Hefyd, roedd cynllun peilot ar waith i dargedu'r bobl hynny oedd angen cymorth â dyledion rhent cyn gynted â phosib.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am reoli'r ddeddfwriaeth newydd o fewn Deddf
Tai (Cymru) 2014;

(b) Cydnabod y themâu oedd yn dod i'r amlwg yn y Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol, a'r heriau'r oedd y Cyngor wedi'u hwynebu wrth ddod o hyd i ddewisiadau tai addas ar gyfer preswylwyr, a nodi'r cynlluniau ar gyfer lliniaru ar unrhyw risgiau pellach; a

(c) Chymeradwyo'r cynigion i leihau digartrefedd yn y sir.

## 210. HYBU TWRISTIAETH A RHEOLI CYRCHFANNAU

Cyflwynodd y Cynghorydd Butler yr adroddiad ynglŷn â Hybu Twristiaeth a Rheoli Cyrchfannau, a oedd yn ymdrin â'r dulliau a ddefnyddiwyd yn Sir y Fflint a'r rhanbarth ehangach i hybu'r economi dwristiaeth drwy weithgarwch hyrwyddo, a rheoli a gwella'r profiad a gynigir i ymwelwyr.
Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am waith y Gwasanaeth Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol a'r Gwasanaeth Twristiaeth, a oedd ill dau wedi chwarae rhan arwyddocaol ar y cyd, a byddai cyfleoedd i gydweithio mwy yn y dyfodol yn sgil ailstrwythuro yn ddiweddar.

Er bod yr economi ymwelwyr yn Sir y Fflint yn rhan gymharol fechan o economi Sir y Fflint, roedd yn dal i wneud cyfraniad pwysig. Roedd y sector yn cyflogi oddeutu 3,273 o bobl ac yn creu oddeutu £252 miliwn bob blwyddyn, gyda 3.7 miliwn o bobl yn aros dros nos a 2.7 miliwn yn dod am y dydd.

Croesawodd y Cynghorydd Thomas yr adroddiad, gan sôn am yr holl atyniadau yn Sir y Fflint ac mor bwysig oedd manteisio ar bob cyfle i'w hyrwyddo.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r dulliau newydd o hyrwyddo Sir y Fflint i ymwelwyr a rheoli cyrchfannau.

**211. CYNLLUN GWASANAETH BWYD CYNGOR SIR Y FFLINT AR GYFER 2018-19**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bithell yr adroddiad ynglŷn â Chynllun Gwasanaeth Bwyd Sir y Fflint ar gyfer 2018/19, a oedd yn rhoi braslun o'r Gwasanaeth Bwyd. Roedd yn pennu'r nodau ac amcanion am y flwyddyn i ddod, a sut y cyflawnid y rheiny.

Roedd y Cynllun hefyd yn cynnwys adolygiad o berfformiad y Gwasanaeth o ran cyflawni Cynllun 2017/18. Talodd y Cynghorydd Bithell deyrnged i'r tîm am yr hyn a gyflawnodd yn ystod 2017/18.

Soniodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi) mor bwysig oedd y gwasanaeth a'r ymdrechion parhaus a wnaed i'w wella.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo Cynllun y Gwasanaeth Bwyd ar gyfer 2018/19.

**212. MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW 2017/18 (CANLYNIADAU)**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid yr adroddiad ynglŷn â Monitro Cyllideb Refeniw 2017/18 (Canlyniadau) a oedd yn cyflwyno'r sefyllfa o ran monitro canlyniadau cyllideb refeniw 2017/18 (yn amodol ar archwilio), gan gynnwys Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai.

Hon oedd y sefyllfa derfynol ddiwedd y flwyddyn:

**Cronfa'r Cyngor**

- Y canlyniad o fewn y flwyddyn oedd gwarged gweithredol net o £0.685 miliwn;
- Roedd y canlyniad cyffredinol yn cynnwys hwb o £1.422 miliwn oherwydd newid y polisi cyfrifo ar gyfer Darparu Isafswm Refeniw fel y penderfynodd y Cyngor Sir ar 1 Mawrth 2018. Effaith hynny oedd cynyddu'r gwarged gweithredol, a bod gwariant net £2.107 miliwn yn llai na'r gyllideb; a
- Balans y Gronfa Wrth Gefn at Raid 31 Mawrth 2018 Oedd £7.928 miliwn, ond lleihaodd hynny i £5.523 miliwn wrth ystyried y cyfraniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyllideb 2018/19.

**Y Cyfrif Refeniw Tai**

- Roedd gwariant net yn ystod y flwyddyn £0.004 miliwn yn uwch na'r gyllideb; ac
- Roedd balans terfynol heb ei neilltuo o £1.116 miliwn ar 31 Mawrth 2018.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion y ceisiadau i gario cyllid ymlaen.

Esboniodd y Prif Weithredwr y cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol. Roedd y

Pwyllgor Archwilio hefyd wedi derbyn y Datganiad Cyfrifon drafft. Derbyniodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yr adroddiad, gan nodi'r effaith a gafodd Darparu Isafswm Refeniw ar y gyllideb. Gwnaethpwyd sylwadau hefyd ynglŷn ag effaith cael cadarnhad o grantiau'n hwyr, ac roedd y Pwyllgor wedi gofyn am anfon llythyr i Lywodraeth Cymru'n esbonio'r risgiau; roedd y llythyr hwnnw'n cael ei ddrafftio.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r adroddiad cyffredinol a'r swm wrth gefn oedd yng Nghronfa'r Cyngor ar 31 Mawrth 2018;

(b) Nodi'r lefel derfynol o falansau ar y Cyfrif Refeniw Tai ar 31 Mawrth 2018; a

(c) Chymeradwyo'r ceisiadau i gario cyllid ymlaen.

**213. RHAGLEN GYFALAF 2017/18 (CANLYNIAD)**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid yr adroddiad ynglŷn â Rhaglen Gyfalaf 2017/18 (Canlyniad) a oedd yn rhoi crynodeb o'r newidiadau a wnaethpwyd yn y Rhaglen Gyfalaf yn ystod tri mis olaf 2017/18.

Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar sail y canlyniad terfynol oedd £59.143 miliwn, gostyngiad net o £0.279 miliwn o gymharu â'r cyfanswm yn y nawfed mis o'r flwyddyn (£59.422 miliwn). Y rhain oedd y newidiadau yn y Rhaglen:

- Cynnydd o £2.836 miliwn yn y rhaglen (£2.159 miliwn yng Nghronfa'r Cyngor a £0.677 miliwn yn y Cyfrif Refeniw Tai);
- Gwrthbwyso drwy gario cyllid ymlaen i 2018/19, sef swm o £1.289 miliwn a gymeradwywyd gan y Cabinet yn y nawfed mis; a
- Gwrthbwyso drwy gario gwariant wedi'i ariannu gan grantiau hwyr Llywodraeth Cymru ymlaen i 2018/19, sef swm o £1.826 miliwn.

Y gwir ganlyniad oedd £57.380 miliwn, a oedd yn awgrymu tanwariant o £1.763 miliwn. Y swm dan sylw, fodd bynnag, oedd cyfanswm y cyllid a gariwyd ymlaen i 2018/19.

Y canlyniad o ran ariannu oedd gorwariant o £0.068 miliwn ar sail y cyllid oedd wedi'i gadarnhau. Y rheswm am hynny oedd bod y Cyngor wedi derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru yn hwyr, ac wedi defnyddio rhywfaint o'r arian i lenwi bylchau mewn refeniw, a arweiniodd at danwariant ar y gyllideb refeniw yn 2017/18. Byddai'r Cyngor yn ariannu'r un faint o wariant cyfalaf yn 2018/19 ar sail derbyniadau cyfalaf.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r adroddiad cyffredinol; a

(b) Chymeradwyo'r addasiadau o ran cario cyllid ymlaen.

**214. MONITRO CYLLIDEB REFENIW (DROS DRO) 2018/19**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllided yr adroddiad ynglŷn â Monitro Cyllideb Refeniw (Dros Dro) 2018/19, sef yr adroddiad monitro cyntaf yn 2018/19. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y cynnydd a wnaethpwyd wrth gyflawni arbedion effeithlonrwydd yn unol â'r targedau a bennwyd, ac yn nodi'r amrywiannau o bwys a allai effeithio ar y sefyllfa ariannol yn 2018/19.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad, rhagamcanwyd mai effaith net gychwynnol y risgiau a'r amrywiannau oedd yn dod i'r amlwg oedd y byddai gwariant £1.619 miliwn yn llai na'r gyllideb. Roedd y swm yn cynnwys ad-daliad TAW unigol o £1.940 miliwn a thanwariant o £1.400 miliwn yn y flwyddyn ar gyfer Darparu Isafswm Refeniw. Gan ystyried hynny, rhagamcanwyd y byddai'r canlyniad terfynol £1.721 miliwn yn fwy na'r gyllideb.

Cyflwynid adroddiad ar y pedwerydd mis i'r Cabinet ar 25 Medi 2018, a byddai hwnnw'n cynnwys mwy o fanylion. Roedd yr adroddiad hwn yn amlygu'r risgiau lefel uchel a allai effeithio ar y rhagamcanion ariannol, a byddai'n rhaid monitro'r rhain yn fanwl gydol y flwyddyn.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at Leoliadau y Tu Allan i'r Sir, a nodwyd fel risg ariannol uchel o ran natur anwadal y maes, gan sôn hefyd am y gwaith oedd yn mynd rhagddo yn y rhanbarth i fynd i'r afael â hynny. Soniodd hefyd am lwyddiant lobïo ar y cyd gan lywodraeth leol ynglŷn â dileu'r Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig, oedd wedi arwain at gyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru y dosrennid £1.2 miliwn yn genedlaethol er mwyn lliniaru ar golli'r arian yn 2018/19.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r adroddiad; a

(b) Chymeradwyo trosglwyddo £0.058 miliwn o'r Gronfa Wrth Gefn at Raid i wneud iawn am y gostyngiad yn sgil dileu'r Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig.

## 215. DANGOSYDDION DARBODUS – GWIRIONEDDOL 2017/18

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid yr adroddiad ynglŷn â Dangosyddion Darbodus – Gwirioneddol 2017/18, a oedd yn cynnwys manylion ynghylch gwir Ddangosyddion Darbodus y Cyngor ar gyfer 2017/18 o gymharu â'r amcangyfrifon a bennwyd o ran Darbodusrwydd a Fforddiadwyedd.

Diolchodd y Prif Weithredwr i Paul Vaughan, a fu'n rhoi arweiniad doeth i'r Cyngor wrth gyflenwi yn y swydd dros dro.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad a'i gymeradwyo.

## 216. CYNLLUN GOSTYNGIADAU POBL SY'N GADAEL GOFAL

Cyflwynodd y Cynghorydd Jones yr adroddiad ynglŷn â'r Cynllun Gostyngiadau Pobl sy'n Gadael Gofal, a oedd yn amlygu meysydd o arferion da a

nodwyd yn adroddiad Comisiynydd Plant Cymru, 'Breuddwydion Cudd'. Roedd yr adroddiad yn sôn am y gefnogaeth oedd ar gael i bobl ifanc oedd yn gadael gofal o ran tai, addysg a hyfforddiant, yn ogystal â chymorth personol ac emosiynol.

Yn yr adroddiad gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo polisi ariannol newydd ar gyfer pobl oedd yn gadael gofal, gan roi gostyngiad hyd at 100% ar Dreth y Cyngor i bobl ifanc rhwng 18 a 25 oedd yn gadael gofal ac yn byw yn Sir y Fflint.

Plant sy'n Derbyn Gofal a phobl sy'n gadael gofal oedd rhai o'r grwpiau mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Gallai'r canlyniadau fod yn wael ar brydiau, ac roedd gan y Cyngor gyfrifoldeb i gynnig y cyfleoedd gorau posib i bobl oedd yn gadael gofal o ran eu dyfodol, wrth iddynt ymadael â gofal y Cyngor a dechrau byw'n annibynnol. Roedd yno 75 o bobl yn gadael gofal yn Sir y Fflint, gyda 31 ohonynt yn 16-18 oed a 44 yn 19-25.

Byddai Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor Dewisol ar gyfer pobl oedd yn gadael gofal yn dod i rym ar 1 Ebrill 2018, neu'r dyddiad cyntaf y codai atebolrwydd person yn gadael gofal i dalu Treth y Cyngor, os oedd hynny ar ôl 1 Ebrill 2018.

Gweinyddid y cynllun yn unol â'r fframwaith polisi oedd ynghlwm wrth yr adroddiad, a oedd yn pennu'r meini prawf cymhwyso ar gyfer gostyngiadau hyd at 100%. Roedd yr adroddiad yn amlinellu egwyddorion lefel uchel y cynllun a gynigiwyd.

Byddai costau darparu'r cynllun yn 2019/20 yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ragamcanion ynghylch y gyllideb yn y dyfodol. Rhagwelwyd y byddai'r cynlluniau'n costio cyfanswm o £27,000.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Rhoi cymeradwyaeth i gyflwyno Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor Dewisol ar gyfer pobl oedd yn gadael gofal ac yn gymwys, a bod hynny'n dod i rym ar 1 Ebrill 2018. Y nod oedd cynnig gostyngiadau hyd at 100% i bobl hyd at 25 oed oedd yn gadael gofal ac yn byw yn Sir y Fflint. Byddai'r cynllun yn cynnwys pawb cymwys oedd yn gadael gofal ac yn byw yn Sir y Fflint, ni waeth pa awdurdod oedd yn darparu'r gofal; a

(b) Cefnogi'r Polisi Ariannol newydd ar gyfer pobl oedd yn gadael gofal, a chyhoeddi gwybodaeth hawdd ei ddarllen er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod pa gymorth ariannol y gallant eu hawlio gan y Cyngor.

**217. CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS YNGHYLCH CLUDIANT CYHOEDDUS AC ANGHYSONDERAU O RAN CLUDIANT I'R YSGOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Thomas yr adroddiad ynghylch Canlyniad yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Gludiant Cyhoeddus ac Anghysonderau o ran Cludiant i'r Ysgol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion ynglŷn â'r llwybrau bws y rhoddwyd cymhorthdal ar eu cyfer, a chanlyniad yr ymgynghoriad ynglŷn ag adolygu'r rhwydwaith bysus. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad er mwyn rhoi sylw i'r gwasanaethau hynny a sicrhau gwasanaeth cludiant cyhoeddus fforddiadwy a

chynaliadwy yn y dyfodol.  Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys manylion ynglŷn â'r dull a gynigiwyd ar gyfer ymdrin â threfniadau anstatudol ar gyfer cludiant i'r ysgol a sefydlwyd yn y gorffennol, a'r anghysonderau o ran y trefniadau hynny, yn sgil adroddiad a gyflwynwyd mewn gweithdy i'r holl Aelodau fis Tachwedd 2017. Cyflwynwyd adroddiad hefyd mewn cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar yr Amgylchedd ar 12 Gorffennaf.

Gan gyfeirio at adolygu'r rhwydwaith bysus, esboniodd y Cynghorydd Thomas bod y cwmnïau bysus wedi gwneud nifer o newidiadau yn y rhwydwaith bysus masnachol, a oedd wedi cael effaith ar gymunedau ac wedi creu bylchau posib yn y ddarpariaeth; nid oedd gan y Cyngor unrhyw reolaeth dros hynny. Fodd bynnag, roedd gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gadw'r rhwydwaith bysus dan adolygiad ac ymyrryd pan oedd hynny'n briodol.

Er mwyn sicrhau gwasanaeth mwy cynaliadwy roedd yn ofynnol gwneud adolygiad trwyadl.  Yn ystod y drefn ymgynghori cyflwynwyd pedwar o ddewisiadau i'r cyhoedd, Aelodau Etholedig a Chynghorau Tref a Chymuned. Sef:

- Dewis 1 – rhoi'r gorau'n llwyr i roi cymhorthdal ar gyfer gwasanaethau bws;
- Dewis 2 – gwneud dim a dal i roi cymhorthdal ar gyfer y llwybrau hynny oedd eisoes yn eu cael;
- Dewis 3 – Dal i roi cymhorthdal ar gyfer llwybrau yn y rhwydwaith craidd, a darparu dulliau cludiant gwahanol, cynaliadwy a lleol mewn cymunedau nad ydynt yn y rhwydwaith craidd.
- Dewis 4 – Dal i roi cymhorthdal ar gyfer y llwybrau yn y rhwydwaith craidd a chyflwyno gwasanaeth sy'n ymatebol i'r galw mewn cymunedau nad ydynt yn y rhwydwaith craidd.

Roedd yr Aelodau Etholedig a'r Cynghorau Tref a Chymuned yn bennaf o blaid Dewis 3, a chafwyd rhai ymatebion gan unigolion o blaid Dewis 2. Dewis 3 oedd yr un gorau gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar yr Amgylchedd hefyd.  Pe gweithredid y dewis hwnnw, y nod fyddai darparu cludiant lleol mewn cymunedau nad oeddent yn y rhwydwaith craidd ar ffurf bysus bach. Byddai'r trefniadau hynny'n gweithio'n debyg i wasanaethau bws arferol, gydag amserlen a llwybrau parhaol.  Efallai, serch hynny, na fyddai'r gwasanaethau bws bach yn mynd mor aml â'r bysus masnachol arferol nac yn cynnig yr un lefel o wasanaeth.  Roedd llwybrau wedi'u nodi ar gyfer trefniadau teithio lleol, ac roedd rhestr o'r rheiny ynghlwm wrth yr adroddiad.

Cwblhawyd y gwaith i optimeiddio llwybrau cludiant i'r ysgol ac ail-gaffael y gwasanaeth fis Medi 2017. Sicrhawyd y budd mwyaf posib drwy wneud defnydd mor effeithiol â phosib o'r cerbydau, cynllunio'r llwybrau yn y ffordd fwyaf cost effeithiol, a darparu cerbydau o faint addas yn ôl nifer y teithwyr cymwys.  Wrth wneud y gwaith canfuwyd bod nifer o drefniadau cludiant anstatudol wedi'u sefydlu yn y gorffennol a oedd yn mynd y tu hwnt i'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol. Roedd y rheiny'n gyfleoedd i sefydlu dulliau newydd o ddarparu'r gwasanaeth a sicrhau arbedion.  Cyflwynwyd manylion am yr anghysonderau dan sylw mewn atodiad i'r adroddiad, ynghyd â chynigion ynglŷn â sut y gellid ymdrin â phob trefniant yn ei dro.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys manylion y tocynnau teithio rhatach. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar yr Amgylchedd ystyried y dewisiadau ar gyfer adennill y costau'n llawn, a chyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r sylwadau a wnaethpwyd yn y cyfarfod hwnnw.

<u>Adolygu'r Rhwydwaith Bysus</u>

- Y consensws oedd y dylid bwrw ymlaen â dewis 3;
- Dymunai'r Aelodau gael sicrwydd y byddai'r ymgynghori â chynghorau tref a chymuned yn parhau cyn yr eid ati i lunio amserlenni a'u rhannu;
- Mynegwyd pryder am fod gofyn i'r Pwyllgor argymell dewis heb wybod pa effeithiau/toriadau a fyddai ar lwybrau bysus.

<u>Anghysonderau Hanesyddol o ran Cludiant i'r Ysgol</u>

- Mynegwyd pryder ynglŷn â brodyr a chwiorydd – os na fyddai modd sicrhau cludiant ar gyfer brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd, gallai rhieni deimlo fod hynny'n cyfyngu ar eu dewis o ysgolion; a
- Gofynnwyd am sicrwydd yr ymgynghorwyd ag Ysgol Pencoch gan fod pryderon ynglŷn â'r effaith ar blant diamddiffyn. Rhoddwyd sicrwydd y cynhaliwyd trefn ymgynghori drwyadl.

<u>Tocynnau Teithio Rhatach</u>

- Awgrymwyd cael golwg ar yr hyn yr oedd awdurdodau cyfagos yn ei godi, a chynyddu'r prisiau yn unol â'u rhai hwy.

Y penderfyniadau ffurfiol a wnaethpwyd yng nghyfarfod arbennig y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar yr Amgylchedd oedd:

(a) Bod y Pwyllgor yn argymell mabwysiadu Dewis 3 (dal i roi cymhorthdal ar gyfer llwybrau yn y rhwydwaith craidd, a darparu dulliau cludiant gwahanol, cynaliadwy a lleol mewn cymunedau nad ydynt yn y rhwydwaith craidd) mewn pedair ardal ddaearyddol o'r Sir;

(b) Bod y Pwyllgor yn argymell i'r Cabinet y dylid cymeradwyo'r lefelau gwasanaeth a gynigiwyd ar y rhwydwaith bysus strategol craidd;

(c) Cefnogi darparu gwasanaeth bws bach yn fewnol er mwyn ategu'r trefniadau teithio lleol, lle bo hynny'n gost effeithiol.

(ch) Bod y Pwyllgor yn argymell i'r Cabinet y dylid cymeradwyo'r dull argymelledig o ymdrin â threfniadau anstatudol ar gyfer cludiant i'r ysgol a sefydlwyd yn y gorffennol, fel y'u nodwyd wrth adolygu'r gwasanaeth;

(d) Bod y Pwyllgor yn argymell i'r Cabinet y dylid ystyried ymhellach y ddarpariaeth ar gyfer brodyr a chwiorydd o ran cludiant i'r ysgol; a

(e) Bod y Pwyllgor yn argymell mabwysiadu Dewis 2 fel y strwythur prisiau gorau ar gyfer tocynnau teithio rhatach, ac adolygu effaith y cynnydd mewn prisiau ar ôl blwyddyn.

Awgrymodd y Cynghorydd Shotton fynd drwy'r argymhellion yn yr adroddiad i'r Cabinet fesul un, a chytunwyd ar hynny. Derbyniwyd fod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar yr Amgylchedd yn cefnogi argymhellion (a) – (c) yn yr adroddiad.

Cafwyd trafodaeth ac fe gytunwyd y dylai argymhelliad (ch) ddweud "am y flwyddyn academaidd i ddod, bod y Cyngor yn gweithredu ei bolisïau cludiant presennol yn llwyr, ac yn ymdrin â'r anghysonderau hanesyddol fel y nodir yn yr adroddiad".

O ran Dewis 2 a'r tocynnau teithio rhatach, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r tâl yn £300 pe byddai'r Cabinet yn cymeradwyo'r dewis hwn. Ni fyddai hynny'n talu'r costau i gyd, ond byddai'n eu talu'n rhannol, a gallai swyddogion weithio ar ddadansoddi risgiau ac effeithiau'r penderfyniad hwnnw ac efallai cynnal adolygiad hirdymor yn ei gylch. Cynigiodd y Cynghorydd Thomas y dylid cymeradwyo Dewis 3. Cafwyd pleidlais a gwrthodwyd y cynnig hwnnw. Cafwyd pleidlais ar Ddewis 2 ac fe'i pasiwyd. Cytunwyd felly y byddai argymhelliad (d) yn dweud "£300 fydd pris Tocyn Teithio Rhatach ar gyfer 2018/19 (Dewis 2) yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar yr Amgylchedd, a chynhelir adolygiad o'r pris ar gyfer y blynyddoedd sy'n dilyn".

Cytunwyd hefyd ar argymhelliad ychwanegol, (e), "Bod swyddogion yn llunio adroddiad arall ynglŷn â sut i ymdrin â brodyr a chwiorydd, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar yr Amgylchedd.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

(a) Bod y Cabinet yn nodi'r gwaith a wnaethpwyd wrth adolygu'r rhwydwaith bysus, yn ogystal â'r ymgynghoriad, ac yn rhoi cymeradwyaeth i fabwysiadu Dewis 3 (dal i roi cymhorthdal ar gyfer llwybrau yn y rhwydwaith craidd, a darparu dulliau cludiant gwahanol, cynaliadwy a lleol mewn cymunedau nad ydynt yn y rhwydwaith craidd) mewn pedair ardal ddaearyddol o'r Sir;

(b) Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r lefelau gwasanaeth a gynigiwyd ar y rhwydwaith bysus strategol craidd;

(c) Bod y Cabinet yn rhoi cymeradwyaeth i ddarparu gwasanaeth bws bach yn fewnol er mwyn ategu'r trefniadau teithio lleol, lle bo hynny'n gost effeithiol;

(ch) Am y flwyddyn academaidd i ddod, bod y Cyngor yn gweithredu ei bolisïau cludiant presennol yn llwyr, ac yn ymdrin â'r anghysonderau hanesyddol fel y nodir yn yr adroddiad.

(d) £300 fyddai pris Tocyn Teithio Rhatach ar gyfer 2018/19 (Dewis 2) yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar yr Amgylchedd, a chynhelid adolygiad o'r pris ar gyfer y blynyddoedd sy'n dilyn; a

(e) Bod swyddogion yn llunio adroddiad arall ynglŷn â sut i ymdrin â brodyr a chwiorydd, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar yr Amgylchedd.

**218. GORFODI AMGYLCHEDDOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Thomas yr adroddiad ynglŷn â Gorfodi Amgylcheddol, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i hysbysu Kingdom y byddai’r trefniadau presennol yn dod i ben. Byddai adroddiad pellach yn dod yn ddiweddarach ynglŷn â’r dewisiadau o ran darparu gwasanaethau gorfodi yn y Sir.

Yn sgil twf ymgyrch gyhoeddusrwydd yn erbyn Kingdom roedd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi gofyn am adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf, a chyflwynwyd yr adroddiad hwnnw mewn cyfarfod yn ddiweddar. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid dod â'r contract â Kingdom i ben, ac y dylid cyflawni’r holl swyddogaethau gorfodi yn y dyfodol drwy ddarparu’r gwasanaeth yn uniongyrchol.

Er y talwyd nifer helaeth o rybuddion cosb benodedig a gyflwynodd Kingdom ar ran y Cyngor heb wrthwynebiad, bu sawl achos hysbys lle’r oedd rhesymau dadleuol dros roi’r tocynnau. Roedd yr achosion prin hynny’n tanseilio enw da’r cwmni a’r Cyngor fel ei gilydd.

Esboniodd Rheolwr y Rhwydwaith Priffyrdd y cyflwynid adroddiad i'r Cabinet ym mis Medi. Dywedodd y Prif Weithredwr y gellid ymchwilio i wasanaeth wedi’i rannu ag awdurdodau lleol eraill oedd mewn sefyllfa gyffelyb. Roedd hi’n bwysig dal ati â chyfundrefn lem, a dylid gadael i ba bynnag wasanaeth oedd yn cyflawni’r swyddogaeth wneud hynny’n ddilyffethair. Cefnogodd y Cynghorydd Attridge hynny, gan ddweud ei bod yn amlwg cymaint oedd canol y trefi wedi gwella ers mabwysiadu dull gorfodi llym.

Dywedodd y Cynghorydd Shotton y byddai angen mynd ati ar unwaith i gydweithio ag awdurdodau cyfagos wrth ymchwilio i wasanaeth wedi’i rannu a fyddai'n tawelu pryderon y cyhoedd ac yn ystyried sylwadau’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar yr Amgylchedd, ac fe gefnogwyd hynny.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cefnogi argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar yr Amgylchedd y dylid terfynu’r cytundeb presennol â Kingdom ar gyfer darparu gwasanaeth gorfodi amgylcheddol lefel isel, unwaith y gellir sefydlu dull gwahanol o gyflawni’r swyddogaeth; a

(b) Bod adroddiad cwmpasu’n dod gerbron y Cabinet fis Medi 2018 yn cynnwys manylion am y dull a gynigir o ddarparu’r gwasanaeth, wedi i swyddogion asesu’r holl ddewisiadau a chynhyrchu model busnes cynaliadwy. Dylai’r adroddiad hefyd gadarnhau’r amserlen ar gyfer gweithredu’r dull newydd a phennu dyddiad ar gyfer dod â'r cytundeb presennol i ben.

**219. RHEOLI ASEDAU TAI – CAFFAEL AR GYFER Y GWASANAETH UNEDAU GWAG A CHEFNOGAETH ATGYWEIRIO**

Cyflwynodd y Cynghorydd Attridge yr adroddiad ynglŷn â Rheoli Asedau Tai – Caffael ar gyfer Gwasanaeth Unedau Gwag a Chefnogaeth Atgyweirio, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gaffael fframwaith o gontractwyr i gefnogi’r tîm atgyweirio mewnol wrth ddarparu'r gwasanaeth unedau gwag ac atgyweirio.

Defnyddiai’r tîm Unedau Gwag gontractwyr i wneud gwaith mewn eiddo gwag na ellid ei gyflawni drwy'r Gweithlu Uniongyrchol. Roedd y Tîm Atgyweirio a Chynnal a Chadw hefyd yn defnyddio contractwyr i wneud gwaith a oedd naill ai'n rhy fawr neu’n rhy gymhleth i’w reoli.

Roedd y cyfraddau presennol yn dirwyn i ben ac felly roedd yn rhaid llunio contract newydd a gosod tendr.

**PENDERFYNWYD:**

Rhoi cymeradwyaeth i’r Tîm Rheoli Asedau Tai gaffael fframwaith o gontractwyr i gynorthwyo â’r gwaith atgyweirio unedau gwag sy’n eiddo i'r Cyngor.

## 220. FFERMYDD SOLAR CRUMPS YARD A SAFLE TIRLENWI’R FFLINT.

Cyflwynodd y Cynghorydd Bithell yr adroddiad ynglŷn â Ffermydd Solar Crumps Yard a Safle Tirlenwi’r Fflint, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i osod paneli solar ffotofoltaidd ar y ddaear ar y ddau safle.

Yn yr achos strategol roedd tystiolaeth fod y datblygiadau solar yn gydnaws â pholisïau a strategaethau allweddol ar leihau carbon/twf economaidd, gan gynnwys polisïau a strategaethau’r Cyngor yn ogystal â rhai rhanbarthol a chenedlaethol, a’u bod yn hwyluso ac yn cyfrannu at gyflawni nodau a thargedau allweddol. Roedd modelu ariannol wedi dangos fod y prosiectau’n hyfyw.

Roedd yr achosion busnes amlinellol ynghlwm wrth yr adroddiad ar ffurf atodiadau cyfrinachol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo’r Achosion Busnes Amlinellol ar gyfer Ffermydd Solar Crumps Yard a Safle Tirlenwi’r Fflint, a dirprwyo awdurdod i’r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a’r Economi) arwain ar gyflawni’r prosiectau hyn;

(b) Awdurdodi’r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a’r Economi) i ffurfio Bwrdd Prosiect pwrpasol i fonitro’r ddau gynllun;

(c) Awdurdodi’r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a’r Economi) i gyflwyno’r ceisiadau cynllunio angenrheidiol ar gyfer cyflawni’r ddau gynllun a chaffael contractwr i wneud y gwaith; a

(d) Dirprwyo awdurdod i’r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a’r Economi), gan ymgynghori â Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro'r Cyngor, sicrhau cymorth allanol â materion cyfreithiol/technegol/cynllunio fel y bo'r gofyn, a neilltuo cyllideb ar gyfer hynny.

221. **YMARFER PWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynwyd eitem er gwybodaeth am y camau gweithredu a gymerwyd o dan bwerau dirprwyedig. Mae'r camau gweithredu wedi eu nodi isod:-

**Rhaglenni Strategol**

- **Dymchwel Neuadd y Dref, Adleoli ac Uwchgynllunio**
  Roedd yr adroddiad yn argymell rhoi cymeradwyaeth i benodi H Jenkinson a'i Gwmni Cyf i ddylunio tu mewn y swyddfa, cynllun y lle gwaith a'r desgiau yn Unity House. Roedd y pris a gynigiwyd o fewn y gyllideb a gyhoeddwyd ar gyfer y cynllun, sef £0.280 miliwn. Roedd y Cabinet eisoes wedi cymeradwyo'r achos busnes ar gyfer symud i Unity House ym mis Mawrth.

**Strydwedd a Chludiant**

- **Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd – Bwcle) (Diddymu) 201-**
  Hysbyswyd yr Aelodau o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn sgil hysbysebu Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd – Bwcle) (Diddymu) 201-.

- **Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd – Cei Connah) (Diddymu) 201-**
  Hysbyswyd yr Aelodau o'r gwrthwynebiad a dderbyniwyd yn sgil hysbysebu Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd – Cei Connah) (Diddymu) 201-.

- **Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd – Treffynnon) (Diddymu) 201-**
  Hysbyswyd yr Aelodau o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn sgil hysbysebu Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd – Treffynnon) (Diddymu) 201-.

- **Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd – Yr Wyddgrug) (Diddymu) 201-**
  Hysbyswyd yr Aelodau o'r gwrthwynebiad a dderbyniwyd yn sgil hysbysebu Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd – Yr Wyddgrug) (Diddymu) 201-.

- **Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd – Queensferry) (Diddymu) 201-**
  Hysbyswyd yr Aelodau o'r gwrthwynebiad a dderbyniwyd yn sgil hysbysebu Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd – Queensferry) (Diddymu) 201-.

- **Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd – Shotton) (Diddymu) 201-**
  Hysbyswyd yr Aelodau o'r gwrthwynebiad a dderbyniwyd yn sgil hysbysebu Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd – Shotton) (Diddymu) 201-.

- **Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint Fourth Avenue a Second Avenue, Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy. Cynnig i Wahardd Aros ar Unrhyw Adeg**
  Hysbyswyd yr Aelodau o'r gwrthwynebiad a dderbyniwyd yn sgil hysbysebu'r cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg ar Second Avenue a Fourth Avenue, Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

- **Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Cefn y Ddôl, Maes Llwyfen a Maes Pinwydd, Ewlo) (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil a Chyfuno) (Diwygiad Rhif 11) 201-**
  Hysbyswyd yr Aelodau o'r gwrthwynebiad a dderbyniwyd yn sgil hysbysebu'r gorchymyn arfaethedig, Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Llwytho a Pharcio, Diwygiad Rhif 11, a oedd yn dileu'r cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg yng Nghefn y Ddôl, Maes Llwyfen a Maes Pinwydd, Ewlo.

<u>Tai ac Asedau</u>

- **Wood Farm, Sandy Lane, Kinnerton CH4 9BS – Gweithred Amrywio**
  Gwneid Gweithred i Amrywio'r gorchymyn Cyfamod Cyfyngol fel y gellid cael annedd arall yn gysylltiedig ag amaeth ar y safle.

- **Arwerthiant Cyhoeddus Lot A, Bridge Farm, Green Lane, Sealand CH5 2LH**
  Gwerthu un lot o ddaliad amaethyddol gwag, i'w gynnig gan Bruton Knowles drwy Arwerthiant Cyhoeddus ar ddyddiad i'w bennu eto.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

Nodi'r camau a gymerwyd o dan bwerau dirprwyedig.

**<u>DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD</u>**

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan baragraff 16, Rhan 4, Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**222. <u>CASGLU ARDRETHI DŴR FEL RHAN O RENTI'R CYNGOR</u>**

Cyflwynodd y Cynghorydd Attridge yr adroddiad ynglŷn â Chasglu Ardrethi Dŵr fel rhan o Renti'r Cyngor, a oedd yn rhoi manylion am y cadarnhad a roddodd y Cwnsler ynghylch y sefyllfa i'r Cyngor o ran derbyn comisiwn i adlewyrchu'r costau gweinyddol oedd yn gysylltiedig ag ardrethi dŵr.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

(a) Parhau â'r gwasanaeth presennol o godi biliau a chasglu ardrethi dŵr ar ran y cyflenwyr dŵr;

(b) Nodi cyngor cyfreithiol y Cwnsler, a oedd yn cadarnhau nad oedd yn debygol iawn y byddai hawliadau yn erbyn y Cyngor yn llwyddo, er gwaethaf dyfarniad yr Uchel Lys yn achos Southwark; a

(c) Derbyn y gostyngiad 1.5% am dalu'n gynnar o 2019/20 ymlaen, ar sail cyngor y Cwnsler.

## 223. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol ac nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 9.30 a.m. a daeth i ben am 12.20 p.m.)

……………………………
**Y Cadeirydd**